

Trosolwg

Mae'r Safon yn ymwneud â gosod gwasanaethau dŵr masnachol. Gall hyn hefyd fod yn berthnasol i osod prif bibellau tân. Gall hyn fod yn berthnasol i bibellau gwasanaeth sydd â diamedrau mewnol dros 50mm.

Mae hyn yn cynnwys dehongli gofynion deunyddiau, cynhyrchu a sicrhau cydosodiadau a chysylltu â phlymwyr a deiliaid eiddo. Gall dulliau a thechnegau cydosod gynnwys torri, weldio electro ymasiad, drilio a tharo neu uniadu mecanyddol ar ddeunyddiau metelig neu bolyethylen (PE) neu bibellau rhwystr.

Mae'r Safon hon ar gyfer gweithwyr rhwydweithiau dŵr sy'n cydosod pibellau a ffitiadau ar gyfer gwasanaethau masnachol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gweithio yn unol â rheoliadau a chanllawiau iechyd, diogelwch, yr amgylchedd, ansawdd dŵr a rheoliadau a chanllawiau perthnasol eraill bob amser
2. asesu amodau'r safle a dehongli dogfennau dylunio i nodi gofynion o ran deunyddiau
3. gwneud yn siŵr bod deunyddiau cymeradwy ar gael, gan eu caffael pan fo angen
4. rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr yr eiddo am bob cam perthnasol o'r broses
5. cynnal asesiadau risg ar adegau priodol
6. cyfleu gwybodaeth berthnasol i blymwyr a phobl berthnasol eraill
7. storio a chludo pibellau a ffitiadau yn unol â gofynion diogelwch a hylendid
8. cydosod pibellau a ffitiadau yn unol â rheoliadau a chanllawiau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol
9. cydosod pibellau a ffitiadau yn unol â manylebau dylunio ac adeiladu, cyfarwyddiadau gwaith, lluniadau cydosod ac unrhyw fanylebau perthnasol eraill
10. gweithio yn unol â gofynion hylendid dŵr bob amser
11. sicrhau bod y pibelli a'r ffitiadau a ragnodwyd ar gael ac mewn cyflwr i'w defnyddio
12. defnyddio dulliau a thechnegau priodol i gydosod pibelli a ffitiadau yn eu safleoedd dynodedig
13. sicrhau pibellau a ffitiadau gan ddefnyddio cysylltwyr penodedig, dyfeisiau diogelu ac unrhyw ddeunydd inswleiddio gofynnol
14. defnyddio tâp marcio priodol ar bibellau pan fo angen yn unol â phrosesau'r cwmni dŵr
15. fflysio'r gwasanaeth i glirio unrhyw falurion a chwilio am ollyngiadau
16. gwneud yn siŵr bod y gwaith o adeiladu siambr y mesurydd a'r gwasanaeth wedi'i orffen yn bodloni'r fanyleb
17. dilyn prosesau'r cwmni dŵr ar gyfer hylendid a phrofi wrth osod gwasanaethau masnachol
18. delio â phroblemau sydd o fewn eich rheolaeth yn ddi-oed
19. rhoi gwybod i'r bobl berthnasol am gwblhau'r gwaith gosod o fewn yr amserlenni gofynnol
20. rhoi gwybod i'r bobl berthnasol am broblemau nad ydych chi'n gallu eu datrys

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. deddfwriaeth iechyd, diogelwch, yr amgylchedd a deddfwriaeth arall, gweithdrefnau sefydliadol a chodau ymarfer perthnasol gan gynnwys codi a chario a defnyddio offer
2. rheoliadau dŵr a gweithdrefnau hylendid sy'n ymwneud â sicrhau cyfanrwydd ac effeithiolrwydd cyflenwadau dŵr, gan gynnwys pwysigrwydd hylendid personol
3. gwybodaeth berthnasol am y safonau ansawdd a chywirdeb a fynnir o safonau'r diwydiant, cyfarwyddiadau a manylebau gweithgynhyrchwyr, gweithdrefnau'r cwmni, codau ymarfer gwneuthurwyr
4. sut mae dehongli lluniadau, manylebau dylunio ac adeiladu cwmnïau dŵr a manylebau cysylltiedig
5. sut mae cynnal asesiad safle
6. diben asesiadau risg a phryd a sut i'w cynnal
7. deunyddiau gofynnol a sut mae gwneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau dŵr
8. sut i nodi cyflenwyr deunyddiau cymeradwy
9. sut mae dehongli gofynion ar gyfer pwyntiau draenio, falfiau stopio, falfiau gwirio a falfiau gwirio dwbl
10. mathau a chymhlethdod y cydosod sydd i'w gynhyrchu gan gynnwys sgriwio, cywasgu a chantel
11. nodweddion a dulliau a thechnegau cydosod i'w defnyddio ar bibellau polyethylen (PE) a rhwystrau
12. yr angen am weithdrefnau rheoli ansawdd gan gynnwys sut i sicrhau nad oes gweddillion mewn pibellau na'u bod wedi'u halogi
13. mathau o gyfarpar codi a chario a gweithdrefnau perthnasol
14. technegau paratoi ar gyfer uniadu pibellau anhyblyg syml
15. yr offer sydd ei angen ar gyfer cydosod a phwysigrwydd gofalu amdanynt
16. gofynion tâp marcio ar gyfer gwasanaethau masnachol a phrif bibellau tân
17. sut i wneud yn siŵr bod siambr y mesurydd wedi'i hadeiladu yn unol â'r fanyleb
18. gofynion y cwmni dŵr ar gyfer diheintio, swabio, profi gwasgedd a samplu ac sy'n briodol ar gyfer gwasanaethau masnachol a phrif bibellau tân
19. mathau o ddulliau inswleiddio a phryd maen nhw'n briodol i'w defnyddio
20. terfynau eich cyfrifoldeb a sut i ddatrys problemau sydd o fewn eich rheolaeth
21. gweithdrefnau cymeradwy ar gyfer delio â phroblemau a rhoi gwybod amdanynt

Datblygwyd gan	Energy & Utility Skills
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	01 Mai 2023
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Mai 2028
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Energy & Utility Skills
RCU gwreiddiol	EUSWNC12
Galwedigaethau perthnasol	Adeiladu Rhwydwaith Dŵr
Cyfes/Set	Gweithrediadau Adeiladu Rhwydweithiau Dŵr, Adeiladu Rhwydwaith Aml-Ddefnyddioldeb
Geiriau Allweddol	dŵr, rhwydwaith, adeiladu, hunan-osod, cyfleustodau, gosod, masnachol, gwasanaeth dŵr
